

Arolygiad Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Tîm Nant y Glyn, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 23 a 24 Ionawr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ebrill 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-977-4

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) Nant y Glyn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 23 a 24 Ionawr 2024.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn TIMC Nant y Glyn yn cynnwys Timau Iechyd Meddwl i Oedolion sy'n cwmpasu Sir Conwy, sydd wedi'i rhannu'n Ddwyrain Conwy a Gorrlewin Conwy. Yr A470 yw'r ffin sy'n rhannu Dwyrain a Gorrlewin Conwy. Mae Gorrlewin Conwy yn cynnwys ardaloedd gwledig amrywiol. Mae gan TIMC Nant y Glyn dîm o staff clinigol sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaethau i oedolion hyd at 70 oed y mae angen cymorth arnynt gyda'u hanghenion iechyd meddwl.

Arolygiadau ar y cyd rhwng AGIC ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw arolygiadau o TIMCau fel arfer. Fodd bynnag, tîm iechyd yn unig yw Nant y Glyn oherwydd symudodd yr awdurdod lleol o'r lleoliad ym mis Gorffennaf 2020 er mwyn sefydlu Tîm Lles Meddyliol ar wahân. Felly, ni wnaeth AGC gwblhau'r arolygiad hwn gydag AGIC.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol, yr oedd un ohonynt yn adolygydd ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd defnyddwyr y gwasanaeth neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd dau holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a phedwar gan y staff. Oherwydd y nifer isel o ymatebion gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r staff, ni allwn gynnwys unrhyw ganfyddiadau yn yr adroddiad hwn gan nad yw'r canlyniadau yn rhai pendant. Fodd bynnag, mae adborth a gafwyd yn ystod trafodaethau wyneb yn wyneb â defnyddwyr y gwasanaeth a staff yn Nant y Glyn yn ymddangos drwy'r adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd defnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn fodlon ar y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael gan y tîm yn Nant y Glyn ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth wrthym eu bod yn cael problemau yn aml wrth geisio cysylltu â'r tîm dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod system newydd ar gyfer ateb y ffôn wedi cael ei gosod yn ddiweddar a bod proses i recriwtio derbynnydd ychwanegol yn mynd rhagddi.

Cawsom wybod bod dros 180 o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn aros i gydgysylltydd gofal gael ei neilltuo iddynt. Prinder staff oedd y prif reswm am hyn. Dywedwyd wrthym fod prosesau i recriwtio staff yn mynd rhagddynt, a bod staff wedi cael eu recriwtio i rai swyddi yn ddiweddar. Mae'r mater hwn wedi'i gofnodi ar Gofrestr Risg Is-adrannol y bwrdd iechyd a chaiff ei adolygu'n rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Parhau i fonitro'r trefniadau cysylltu dros y ffôn er mwyn sicrhau y caiff galwadau eu hateb yn amserol
- Sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth sy'n aros i gydgysylltydd gofal gael ei neilltuo iddynt, a'u gofalwyr lle y bo'n briodol, yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o lunio asesiad risg y gwasanaeth a chynlluniau gweithredu ar gyfer adfer
- Parhau i fonitro ac asesu adnoddau staffio yn erbyn llwythi gwaith a chymryd camau priodol pan fo angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dull urddasol a pharchus o ddarparu gofal
- Gwasanaeth dwyieithog
- Amgylchedd glân a chroesawgar
- Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dystiolaeth gadarnhaol ar y cyfan fod gofal yn canolbwyntio ar anghenion unigol defnyddwyr y gwasanaeth. Hefyd, roedd dull cydweithredol yn cael ei ddefnyddio wrth gynllunio gofal a thriniaeth, lle roedd staff o broffesiynau a sefydliadau gwahanol yn cydweithio'n dda.

Roedd asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau yn cael eu cwblhau mewn ffordd gynhwysfawr, yn unol â'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth beth perchnogaeth dros eu gofal a'u triniaeth. Roedd aelodau o'r teulu / gofalwyr yn cael eu hannog i chwarae rhan weithgar yn y broses gofal a chymorth pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Gwelsom fod proses weinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithiol ac yn gadarn ac y cedwir cofnodion cywir.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhai agweddau ar iechyd a diogelwch, ac asesu risg. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad clir neu dystiolaeth o gamau a gymerwyd yn dilyn asesiadau risg pwyntiau clymu
- Bwrw ymlaen gyda chynlluniau i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig
- Sefydlu proses archwilio ac adolygu ar gyfer cofnodion gofal a chymorth er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb.
- Sicrhau bod barn a dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau gofal a thriniaeth bob amser, a bod y cynlluniau yn adlewyrchu cryfderau defnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal â'u hanghenion gofal a chymorth
- Datblygu strategaethau ffurfiol i wella prosesau cydweithio â'r awdurdod lleol ar bob lefel yn y gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal
- Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Rheoli meddyginiaethau
- Atal a rheoli heintiau
- Monitro iechyd corfforol
- Cymorth fferyllol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda, a bod gofal a thriniaethau yn cael eu rhoi gan dîm o staff proffesiynol ac ymroddedig. Roedd tystiolaeth o drefniadau cydlynol ar gyfer gweithio fel tîm ac, yn gyffredinol, dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu swyddi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Datblygu dulliau mwy rhagweithiol o gasglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Parhau i fonitro cydberthnasau gwaith rhwng disgyblaethau gwahanol o fewn y tîm, a chymryd camau priodol ac amserol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr asesiad risg mewnol
- Sicrhau bod Meddygon Teulu yn gwbl ymrwymedig i egwyddorion 'rhannu'r gofal' ac yn eu cefnogi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Systemau goruchwyllo a llywodraethu'r tîm rheoli
- Hygyrchedd rheolwyr tîm
- Cymorth a threfniadau goruchwyllo ar gyfer y staff
- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Sesiynau hyfforddiant misol sy'n benodol i'r gwasanaeth.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd defnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn fodlon ar y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael gan y tîm yn Nant y Glyn ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth wrthym eu bod yn cael problemau yn aml wrth geisio cysylltu â'r tîm dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod system newydd ar gyfer ateb y ffôn wedi cael ei gosod yn ddiweddar a bod proses i recriwtio derbynnnydd ychwanegol yn mynd rhagddi. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r trefniadau cysylltu dros y ffôn er mwyn sicrhau y caiff galwadau eu hateb yn amserol.**

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd y staff yn cefnogi defnyddwyr y gwasanaeth i gynnal eu hiechyd corfforol drwy glinigau rheolaidd a gynhelir yn Nant y Glyn.

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael ar ffurf taflenni yn yr ardal aros.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom y staff yn delio â defnyddwyr y gwasanaeth mewn ffordd barchus a phroffesiynol, a hynny wyneb yn wyneb ac yn ystod sgysiau ffôn.

Gwelwyd ymgynghoriadau a thrafodaethau cyfrinachol â defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu cynnal yn breifat.

Gwybodaeth i gleifion

Gallai defnyddwyr y gwasanaeth gael gafeael ar wasanaethau eirioli fel rhan o'r llwybr gofal iechyd meddwl. Roedd posteri a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau eirioli cyffredinol wedi'u harddangos yn y cyfleuster. Fodd bynnag, nid oedd y rhain mewn ardal a oedd yn golygu y gallai defnyddwyr y gwasanaeth eu gweld yn hawdd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau eirioli cyffredinol yn weladwy ac ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr.**

Cynigir taflen adnoddau i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n cynnwys rhestr gynhwysfawr o wasanaethau cymorth trydydd parti.

Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn

Dywedodd defnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrandio arnynt a bod eu barn a'u dymuniadau yn cael eu hystyried yn ystod y broses cynllunio gofal.

Amserol

Gofal Amserol

Cawsom wybod bod dros 180 o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn aros i gydgyssylltydd gofal gael ei neilltuo iddynt. Prinder staff oedd y prif reswm am hyn. Dywedwyd wrthym fod prosesau i recriwtio staff yn mynd rhagddynt, a bod staff wedi cael eu recriwtio i rai swyddi yn ddiweddar. Mae'r mater hwn wedi'i gofnodi ar Gofrestr Risg Is-adrannol y bwrdd iechyd a chaiff ei adolygu'n rheolaidd.

Roedd mesurau ar waith i asesu a monitro'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sy'n aros i gydgyssylltydd gofal gael ei neilltuo iddynt, ynghyd â phroses uwchgyfeirio ar gyfer y rhai y mae angen ymyriad brys arnynt. Fel rhan o hyn, byddai defnyddwyr eraill y gwasanaeth yr oedd cydgysylltydd gofal eisoes wedi'i neilltuo iddynt, ac yr ystyriwyd eu bod yn wynebu risg is, yn cael eu symud i'r rhestr o ddefnyddwyr heb eu neilltuo.

Roedd asesiadau risg a chynlluniau gweithredu ar gyfer adfer ar waith ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a oedd yn aros i gydgyssylltydd gofal gael ei neilltuo iddynt ac roedd y rhain yn cael eu trafod yn y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gwasanaeth lleol ac yn y cyfarfodydd Rheoli Risg Is-adrannol. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth yn y broses o lunio'r asesiadau risg a'r cynlluniau gweithredu hyn. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o lunio asesiad risg y gwasanaeth a chynlluniau gweithredu ar gyfer adfer.**

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu ymdopi â llwythi achosion unigol ar y cyfan. Fodd bynnag, gan nad oedd staff yr awdurdod lleol wedi'u lleoli yn Nant y Glyn bellach, roedd y tîm yn gorfod delio â phwysau ychwanegol cyflenwi dyletswyddau a chwblhau atgyfeiriadau ar gyfer gofal cymdeithasol. Yn flaenorol, roedd y gwaith o gyflenwi dyletswyddau yn cael ei rannu rhwng y staff iechyd a staff yr awdurdod lleol ac roedd y broses atgyfeirio yn llai biwrocraidd.

Roedd y ffaith nad oedd tîm yr awdurdod lleol yn Nant y Glyn mwyach hefyd yn achosi problemau i ddefnyddwyr y gwasanaeth a oedd yn gorfod cael eu

hailgyfeirio i swyddfeydd yr awdurdod lleol pan oedd angen mewnbwn gofal cymdeithasol arnynt.

Cawsom wybod y bu cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau yn ddiweddar sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth â diagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), a bod hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y tîm yn Nant y Glyn. Gwelsom dystiolaeth bod defnyddwyr gwasanaeth â diagnosis o ADHD yn cael eu hasesu a'u monitro'n dda. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd yr adnoddau staffio wedi cael eu hadolygu er mwyn ymdrin â'r cynnydd hwn mewn llwyth gwaith. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro ac asesu adnoddau staffio yn erbyn llwythi gwaith a chymryd camau priodol pan fo angen.**

Roedd adnodd pwysoli, sy'n gysylltiedig â chymhlethdod anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, yn cael ei ddefnyddio i bennu llwythi achosion y staff. Fodd bynnag, nid oedd polisi rheoli llwyth gwaith ar waith i gefnogi hyn. **Dylai'r bwrdd iechyd lunio polisi rheoli llwyth gwaith.**

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw oedi pan fyddai defnyddwyr y gwasanaeth am gael gafael ar wasanaethau seicoleg.

Roedd trefniadau ar waith i ddefnyddwyr y gwasanaeth gael cymorth a chyngor y tu allan i oriau gwaith arferol y swyddfa. Fodd bynnag, dywedodd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth wrthym nad oeddent yn gwybod â phwy y dylent gysylltu gyda'r nos, yn ystod y nos ac ar y penwythnos pan oedd swyddfa Nant y Glyn ar gau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth a chyngor y tu allan i oriau agor arferol y swyddfa.**

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelwyd y staff yn siarad â defnyddwyr y gwasanaeth gan ddefnyddio iaith barchus a phriodol.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar ffurf posteri a thafleuni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd nifer o'r staff yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg). Gwelsom y staff y siarad â'i gilydd ac â defnyddwyr y gwasanaeth yn Gymraeg. Cawsom wybod bod gwasanaethau cyfieithu ar gael er mwyn helpu i gyfathrebu mewn ieithoedd eraill.

Hawliau a Chydraddoldeb

Dangosodd trafodaethau â defnyddwyr y gwasanaeth ac arsylwadau o ryngweithio'r staff fod y tîm yn Nant y Glyn yn cefnogi hawliau defnyddwyr y gwasanaeth i gael eu trin ag urddas a pharch.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelwyd nad oedd unrhyw risgiau amlwg i iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd.

Roedd asesiadau risg amgylcheddol cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal, ac roedd camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i unrhyw feysydd y nodwyd bod angen rhoi sylw iddynt. Roedd asesiad risg pwyntiau clymu ar waith a dywedwyd wrthym nad yw defnyddwyr y gwasanaeth byth yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain yn Nant y Glyn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod o gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r risgiau pwyntiau clymu a nodwyd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i asesiadau risg pwyntiau clymu yn cael eu cofnodi.**

Wrth edrych ar ffeiliau gofal, gwnaethom gadarnhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a'u bod yn cael eu llunio a'u hadolygu gan y tîm amlddisgyblaethol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod risgiau cymhleth yn cael eu huwchgyfeirio drwy fforymau proffesiynol, a bod sawl asiantaeth yn cyfrannu at y broses hon pan fo angen.

Nid oedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt. Cawsom wybod bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system DATIX ac y byddai'r lefel niwed yn cael ei hasesu ac yr ystyrir a oedd angen rhoi hysbysiad allanol i asiantaethau eraill. Lle nodwyd gwersi i'w dysgu yn dilyn digwyddiadau, roedd hyn yn cael ei fwydo'n ôl i'r staff drwy gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

Nodwyd gennym nad oedd y gadair fflebotomi yn y clinig yn addas at y diben am nad oedd yn addas ar gyfer cleifion sydd uwchlaw maint a phwysau cyfartalog ac ni ellir ei haddasu er mwyn galluogi'r staff i weithio ar uchder cyfforddus. **Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cadair fflebotomi fwy addas.**

Gwelsom hefyd fod ceblau estyn, â nifer o blygiau wedi'u gosod ynddynt, yn cael eu defnyddio yn ardal y clinig. Mae hyn yn berygl trydanol, ond roedd hefyd yn peri risg o faglu a chwympto. **Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i leihau'r risg o niwed o ganlyniad i ddefnyddio ceblau estyn trydanol.**

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd mesurau atal a rheoli heintiau da ar waith yn Nant y Glyn a oedd yn cael eu hategu gan bolisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr. Fodd bynnag, roedd rhai o'r cadeiriau wedi'u gorchuddio â defnydd nad oedd modd ei sychu. **Rhaid i'r bwrdd**

iechyd sicrhau bod yr holl gadeiriau yn y clinig yn rhai y gellir eu glanhau'n hawdd.

Roedd yr amgylchedd cyfan yn lân ac yn daclus, ac roedd y swyddog cadw tŷ a oedd ar ddyletswydd yn ystod yr arolygiad yn ddiwyd ac yn wybodus ynglŷn â'r drefn lanhau. Roedd y swyddog cadw tŷ yn groesawgar ac yn barod i helpu.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd gweithdrefnau clir ar waith i'r staff eu dilyn pe byddai ganddynt bryder diogelu.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol a bod lefelau cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol yn dda.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran materion diogelu a gallent ddisgrifio'r broses. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi unrhyw faterion, gan gynnwys yn ystod cyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaethol, y gwnaethom arsylwi arnynt yn ystod yr arolygiad.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Thîm Diogelu Corfforaethol y bwrdd iechyd, sy'n darparu cymorth a chynghor mewn perthynas ag unrhyw bryderon diogelu er mwyn sicrhau bod egwyddorion a dyletswyddau diogelu yn cael eu dilyn ar gyfer unrhyw glaf sy'n wynebu risg.

Roedd y tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill er mwyn cydlynu ymatebion amlasiantaethol i bryderon a godir, yn unol â phrosesau diogelu sefydledig.

Roedd systemau ar waith i gefnogi Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol a Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd.

Yn y sampl o gofnodion a welsom, nodwyd gennym fod risgiau diogelu wedi cael eu nodi, y gweithredwyd arnynt ac y cawsant eu cofnodi'n briodol. Nodwyd gennym fod y ddogfennaeth gofal a'r asesiadau risg cysylltiedig wedi'u cwblhau mewn modd cynhwysfawr.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn gadarn a diogel.

Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau meddyginiaeth. Disgrifiodd y staff brosesau clir a chynhwysfawr ar gyfer rhagnodi, rhoi a chofnodi meddyginiaeth, yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Roedd system briodol ar waith i reoli meddyginiaethau ac roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth archebu meddyginiaeth.

Mae fferylllydd ymgynghorol yn mynd i Nant y Glyn hyd at ddeuddydd yr wythnos, er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad i staff ac i helpu i ragnodi meddyginiaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth â diagnosis o ADHD. Yn ogystal, mae technegwyr fferyllol yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol yn Nant y Glyn.

Nodwyd gennym fod meddyginiaethau cleifion yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn neu pan fo angen er mwyn sicrhau eu bod yn briodol o hyd. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael yr holl wybodaeth yr hoffent ei chael am unrhyw sgil-effeithiau sy'n gysylltiedig â'u meddyginiaeth a nodwyd gennym fod taflenni am feddyginiaethau ar gael yn hwylus i'r staff.

Nodwyd gennym nad oedd tymheredd yr oergell a ddefnyddir i storio samplau gwaed yn cael ei gofnodi. Yn fuan ar ôl yr arolygiad, cawsom gadarnhad bod taflen monitro tymheredd dyddiol wedi cael ei chyflwyno a bod cais wedi'i wneud am thermomedr i'r oergell drwy'r adran fferylliaeth. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i sicrhau bod y staff yn monitro ac yn cofnodi tymheredd yr oergell storio samplau gwaed bob dydd.**

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwnaethom edrych ar ffeiliau gofal chwe defnyddiwr gwasanaeth a oedd o dan Orchmynion Triniaeth Gymunedol a phum defnyddiwr gwasanaeth a oedd yn cael eu cefnogi drwy Gynlluniau Gofal a Thriniaeth. Gwelsom dystiolaeth gadarnhaol ar y cyfan o ddull gweithredu amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn perthynas â chynllunio gofal a thriniaeth.

Roedd asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau yn cael eu cwblhau mewn ffordd gynhwysfawr, yn unol â'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth beth perchnogaeth dros eu gofal a'u triniaeth. Roedd aelodau o'r teulu / gofaluwr yn cael eu hannog i chwarae rhan weithgar yn y broses gofal a chymorth pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cefnogi defnyddwyr y gwasanaeth i gynnal iechyd corfforol da a bod clinigau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn rhoi meddyginiaeth, cymryd samplau gwaed, monitro pwysau a phwysedd gwaed ac ati.

Mae un o'r seiciatryddion yn cymryd rôl arweiniol o ran goruchwylio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd corfforol yn Nant y Glyn.

Dywedodd y staff wrthym fod rhai ohonynt wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant Electrocardiogram (ECG). Fodd bynnag, roedd y peiriant wedi torri ers dros 12 mis ac, er i hyn gael ei gofnodi, nid oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd i drwsio'r peiriant. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i gleifion yr oedd angen ECG arnynt fel rhan o'u triniaeth fynd at eu meddyg teulu er mwyn i'r prawf gael ei gynnal. **Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu peiriant ECG newydd yn ddi-oed.**

Dywedwyd wrthym fod grŵp gweithredu a grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael eu sefydlu er mwyn ysgogi gwelliannau i'r ffordd y darperir gofal iechyd corfforol. Hefyd, roedd polisi gofal iechyd corfforol yn cael ei lunio a fydd yn amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu darparu fel rhan o ofal eilaidd a pha wasanaethau a gaiff eu darparu fel rhan o ofal sylfaenol (yn unol â chytundeb 'rhannu'r gofal'). Bydd y polisi hefyd yn nodi'r trefniadau llywodraethu a roddir ar waith i fonitro a gwerthuso gwasanaethau iechyd corfforol. Rhagwelir mai'r cydgysylltwyr gofal fydd yn gyfrifol am fonitro iechyd corfforol fel rhan o'r ddogfen 'Fy Iechyd Corfforol', a fydd yn rhan o'r cynllun gofal a thriniaeth. Fodd bynnag, mae'r staff yn rhagweld y bydd rhai problemau oherwydd bod diffyg cymorth gweinyddol yn y tîm i alluogi gwasanaeth effeithiol. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i adolygu trefniadau cymorth gweinyddol y tîm a chymryd camau gweithredu priodol i sicrhau bod y tîm yn gallu darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.**

Cofnodion Cleifion

Roedd y ffeiliau gofal y gwnaethom edrych arnynt yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal eu cadw ar ffurf papur. O ganlyniad, roedd yn anodd darllen y wybodaeth a dod o hyd i'r wybodaeth fwyaf cyfredol. Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig. Byddai hyn yn gwella'r broses o gofnodi, darllen a rhannu gwybodaeth â gwasanaethau gofal sylfaenol yn sylweddol. **Dylai'r bwrdd iechyd fwrw ati gyda chynlluniau i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig.**

Nid oedd llawer o dystiolaeth bod nodiadau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu harchwilio a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlu proses archwilio ac adolygu ar gyfer cofnodion gofal a chymorth er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb.**

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar gofnodion chwe defnyddiwr gwasanaeth a oedd o dan Orchmynion Triniaeth Gymunedol. Gwelsom fod y cofnodion yn dda ar y cyfan. Ym mhob achos, roedd y Gorchmynion Triniaeth Gymunedol yn gyfreithiol ddilys.

Roedd yr amodau yn glir ac yn berthnasol, ac roedd yr holl ddogfennaeth ategol wedi'i chwblhau'n gywir.

Gwnaethom siarad â Gweinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl dros y ffôn a ddangosodd wybodaeth dda am y broses o gymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer cysylltiedig ac am sut i gydymffurfio â nhw. Roedd system weithredol effeithiol ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar weinyddu Gorchmynion Triniaeth Gymunedol yn rhedeg yn ddiraffferth. Roedd y Gweinyddydd yn gallu dangos hyn drwy ddarparu tystiolaeth ar ffurf dogfennaeth berthnasol, hysbysiadau i weithwyr proffesiynol, llythyrau i gleifion a pherthnasau, gwybodaeth am hawliau cleifion a gwasanaethau eirioli.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a Darparu Gofal

Roedd tystiolaeth o gyfathrebu'n dda â thîm yr awdurdod lleol o ddydd i ddydd ac o gydwethio ar draws y tîm amlddisgyblaethol ehangach er mwyn helpu i ddarparu gofal yn unol â'r Mesur Iechyd Meddwl.

Roedd cofnodion defnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom edrych arnynt yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar y cyfan ac roeddent yn adlewyrchu meysydd y Mesur Iechyd Meddwl. Roedd hyn yn cynnwys anghenion emosiynol, anghenion seicolegol ac anghenion iechyd corfforol defnyddwyr y gwasanaeth. Roedd ffocws ar sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cymryd perchnogaeth dros eu gofal, ac ar gynnwys perthnasau a gwasanaethau eirioli lle roedd y defnyddiwr yn awyddus i wneud hynny. Fodd bynnag, nid oedd llais defnyddwyr y gwasanaeth bob amser yn cael ei adlewyrchu ym mhob cynllun gofal a thriniaeth a welsom. Roedd tuedd hefyd i gynlluniau ganolbwyntio ar risg ac anghenion yn hytrach na bod yn seiliedig ar gryfderau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod barn a dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau gofal a thriniaeth bob amser, a bod y cynlluniau yn adlewyrchu cryfderau defnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal â'u hanghenion gofal a chymorth.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod y tîm yn cael ei arwain yn dda a bod gofal a thriniaethau yn cael eu rhoi gan dîm o staff proffesiynol ac ymroddedig.

Mae'n gadarnhaol nodi bod y tîm uwch-reolwyr wedi cynnal asesiad risg mewnol ac wedi llunio cynllun gweithredu cynhwysfawr ar gyfer adfer er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella. Cafodd y cynllun gweithredu ar gyfer adfer ei adolygu ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2023.

Nid oedd y staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio na'u cydleoli. Mae hyn wedi achosi rhai problemau mewn perthynas â chyfathrebu â chydweithwyr yn nhîm llesiant yr awdurdod lleol, ac mae wedi arwain at broses atgyfeirio fwy biwrocraidd. Serch hynny, gwelsom fod cydberthnasau gwaith anffurfiol da ar waith rhwng rheolwyr y tîm yn Nant y Glyn a'u swyddogion cyfatebol yn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae angen ffurfioli'r trefniadau hyn. **Rhaid i'r bwrdd iechyd datblygu strategaethau ffurfiol i wella prosesau cydweithio â'r awdurdod lleol ar bob lefel yn y gwasanaeth.**

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom fod proses recriwtio staff ffurfiol ar waith a bod yr holl wiriadau cyn cyflogi angenrheidiol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd problemau o hyd mewn perthynas â swyddi gwag ar gyfer staff clinigol a gweinyddol. Roedd hyn yn cael effaith andwyol ar y gwaith o reoli llwythi achosion a gallu cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth i gysylltu â'r gwasanaeth a chael gafael arno. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd proses i recriwtio staff yn mynd rhagddi.

Roedd prosesau ar waith ar gyfer cefnogi, goruchwyllo ac arfarnu'r staff ac roedd y mwyafrif o'r staff wedi cael cyfarfodydd un i un rheolaidd â'u rheolwyr llinell.

Caiff themâu neu bryderon cyffredin mewn perthynas â'r gwasanaeth eu trafod mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwyllo'r staff neu Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad unigol y staff er mwyn nodi unrhyw gymorth addysgol neu anghenion hyfforddiant sydd gan y tîm a/neu unigolion.

Yn ogystal â chyfarfodydd unigol, dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cymorth anffurfiol o ddydd i ddydd gan eu rheolwyr llinell a oedd yn hawdd iawn mynd atynt, yn ôl y staff.

Ar y cyfan, roedd cyfleoedd da i ddysgu a datblygu ac roedd y cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn dda iawn. Yn ogystal â chysiau hyfforddiant gorfodol, caiff y staff eu hannog i gwblhau hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth a chymryd rhan yn y sesiynau hyfforddiant mewnol misol a gaiff eu hwyluso gan un o'r seiciatryddion.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn cael budd o hyfforddiant ar anhwylder yr ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol gan y bydd y tîm yn dod yn gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth i'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fuan. **Dylai'r bwrdd iechyd drefnu i'r staff gael hyfforddiant ar anhwylder yr ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol.**

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom y staff yn gweithio ac yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd yn ystod yr arolygiad.

Roedd barn y staff ar ddiwylliant y TIMC yn amrywiol, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn dweud wrthym eu bod yn fodlon ar yr amgylchedd gwaith a'r amodau ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn teimlo bod cydberthnasau rhwng gwahanol ddisgyblaethau yn y TIMC wedi chwalu. Mae'r tîm uwch-reolwyr eisoes wedi tynnu sylw at y mater hwn yn yr asesiad risg mewnol fel un y mae angen rhoi sylw iddo. **Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro cydberthnasau gwaith rhwng disgyblaethau gwahanol o fewn y tîm, a chymryd camau priodol ac amserol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr asesiad risg mewnol.**

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol.

Roedd cofnodion defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu storio mewn ystafell dan glo a dim ond staff awdurdodedig allai gael gafael ar y ffeiliau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal yn cael eu cadw ar ffurf papur. Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Roedd proses archwilio ac adrodd ffurfiol ar waith i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae Rheolwyr y Tîm yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gwasanaethau, lle caiff unrhyw faterion, themâu a phryderon yn ymwneud ag ansawdd eu huwchgyfeirio a'u hadolygu. Caiff unrhyw gamau gweithredu neu wersi a ddysgir yn ystod y cyfarfodydd hyn eu bwydo'n ôl i'r staff drwy brosesau mewnol amrywiol, fel cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol, negeseuon e-bost i'r staff a sesiynau briffio. Mae'r sesiynau briffio yn crynhoi digwyddiad ac yn nodi'r hyn a ddysgwyd. Yn ogystal, mae aelodau o'r uwch-dîm arwain yn ymweld â Nant y Glyn yn rheolaidd i drafod unrhyw broblemau ac i roi cyfle i'r staff dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Roedd polisi a phroses gwyno ffurfiol ar waith. Rheolwyr y Tîm sy'n gyfrifol am ymchwilio i bob pryder/cwyn a rhoi ymateb ysgrifenedig i'r achwynydd.

Mae rheolwr y gwasanaeth yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd Gweithio i Wella wythnosol lle caiff digwyddiadau, pryderon/cwynion, adroddiadau cwêst ac ati eu hadolygu. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn cynnig cyfle i roi adborth uniongyrchol i reolwyr y tîm ac ymarferwyr.

Roedd taflenni yn yr ardal aros ar sut i wneud cwyn a blwch i bobl bostio unrhyw bryderon neu awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth. Roedd hysbysfwrdd 'Dywedoch chi - gwnaethom ni' yn yr ardal aros hefyd, a oedd yn dangos pa gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i gwynion/awgrymiadau. Gwnaethom awgrymu y dylai'r gwasanaeth ystyried dulliau mwy rhagweithiol o gasglu adborth defnyddwyr y gwasanaeth, e.e. drwy holiaduron. **Dylai'r bwrdd iechyd ystyried datblygu dulliau mwy rhagweithiol o gasglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.**

Yn ogystal, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am sut i gysylltu ag AGIC. **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu harddangos mewn man amlwg yn yr ardal aros.**

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a gallent esbonio'r broses a

fyddai'n cael ei dilyn pe bai pryder yn dod i law neu ar ôl digwyddiad. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ffurfiol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.**

Cawsom wybod bod TIMC Nant y Glyn yn gweithio tuag at Achrediad Coleg Brenhinol Seiciatreg ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol drwy fodloni'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol i Oedolion. Mae'r rhaglen achredu yn gweithio gyda staff i sicrhau a gwella ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol i bobl ag anghenion iechyd meddwl a'u gofalwyr. Mae'n ymgysylltu â staff mewn proses adolygu gynhwysfawr a ddefnyddir i gydnabod arferion da a gofal o ansawdd uchel, ac mae timau yn cael cymorth i nodi meysydd i'w gwella a mynd i'r afael â nhw. Mae'r safonau hyn yn deillio o ddogfennau allweddol a barn gyffredin arbenigwyr ac maent wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth drwy'r Grŵp Datblygu Safonau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion a gofalwyr a fforwm e-bost â grwpiau proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Maent yn ymgorffori Safonau Cymunedol Craidd Canolfan Gwella Ansawdd y Coleg, ynghyd â safonau arbenigol sy'n ymwneud yn benodol â thimau iechyd meddwl cymunedol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Mae'r tîm wedi parhau i gynnal cysylltiadau â Thîm Lles Meddyliol yr awdurdod lleol. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol er mwyn datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol i ffurfioli a chryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddau dîm.

Mae Rheolwyr y Tîm yn trafod materion clinigol ac adnoddau bob dydd â'r Tîm Cleifion Mewnol Acíwt, y Tîm Triniaeth yn y Cartref a'r Gwasanaethau Cyswllt Seiciatrig.

Mae gan y tîm gysylltiadau gwaith cryf â Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru, a chaiff Rheolwyr y Tîm gyfarfodydd rheolaidd ar gyfer Cyfarfod Clustnodi'r Pwynt Mynediad Unigol sy'n cyd-ddigwydd. Mae gan y tîm gysylltiadau gwaith cryf â Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru hefyd. Mae Rheolwyr y Tîm yn aelodau o fforymau lleol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) a Grŵp Gorchwyl Cyflawnwyr Cam-drin Domestig sy'n Oedolion (ADAPT).

Mae gan y tîm gysylltiadau sefydledig ag asiantaethau yn y trydydd sector hefyd er mwyn helpu i gyflawni rhai canlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth y gall fod yn anodd i'r TIMC eu cyflawni ar ei ben ei hun.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys Meddygon Teulu lleol. Dywedwyd bod y gydberthynas â'r Meddygon Teulu yn amrywiol a bod rhai yn fwy ymrwymedig nag eraill. Dywedwyd wrthym nad oedd rhai Meddygon Teulu yn gwbl gefnogol o broses 'rhannu'r gofal' a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y TIMC. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Meddygon Teulu yn gwbl ymrwymedig i egwyddorion 'rhannu'r gofal' ac yn eu cefnogi.**

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Nant y Glyn

Dyddiad yr arolygiad: 23 a 24 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Nant y Glyn

Dyddiad yr arolygiad: 23 a 24 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dyweddodd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth wrthym eu bod yn cael problemau yn aml wrth geisio cysylltu â'r tîm dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod system newydd ar gyfer ateb y ffôn wedi cael ei gosod yn ddiweddar a bod proses i recriwtio derbynnydd ychwanegol yn mynd rhagddi.	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r trefniadau cysylltu dros y ffôn er mwyn sicrhau y caiff galwadau eu hateb yn amserol.	Datblygu cylch archwilio ffurfiol i adolygu gweithgarwch y ffôn er mwyn deall - <ul style="list-style-type: none"> Nifer y galwadau a geir. Nifer y galwadau a gaiff eu hateb. Nifer y galwadau a gaiff eu colli. Yr amser a gymerir i ateb galwadau. 	Rheolwr Gweinyddu Canolog	31 Mawrth 2024
		Cwblhau'r Archwiliad Ffôn.	Rheolwr Gweinyddu Canolog	30 Ebrill 2024

	<p>Cymryd camau gweithredu priodol yn unol â chanlyniad yr archwiliad.</p>	Rheolwr Gweinyddu Canolog	31 Mai 2024
	<p>Defnyddio hynt y camau gweithredu i fwydo i mewn i fforymau llywodraethu lleol.</p>	Rheolwr Gweinyddu Canolog	31 Mai 2024
	<p>Ailarchwilio bob 3 mis nes bydd yr Uwch-dîm Arwain yn sicr nad yw cleifion yn cael anawsterau wrth gysylltu â'r tîm dros y ffôn.</p>	Rheolwr Gweinyddu Canolog	30 Ebrill 2024
	<p>Adolygu proses bresennol yr Is-adran ar gyfer cymryd negeseuon gyda'r nod o wella hyn ac ystyried a oes angen Gweithdrefn Weithredu Safonol.</p>	Arweinydd Gweithredol yr Is-adran.	30 Ebrill 2024
	<p>Adolygu canlyniadau archwiliad blaenorol Nant y Glyn o gymryd negeseuon, a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni.</p>	Rheolwr Gweinyddu Canolog	30 Ebrill 2024.

<p>Nid oedd posteri a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau eirioli cyffredinol mewn ardal a oedd yn golygu y gallai defnyddwyr y gwasanaeth eu gweld yn hawdd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau eirioli cyffredinol yn weladwy ac ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr.</p>	<p>Bydd taflenni a phosteri ar wasanaethau eirioli ar gael yn hawdd yn y dderbynfa.</p> <p>Datblygu proses er mwyn sicrhau bod posteri ac ati ar gael ac yn berthnasol o hyd, a'u bod yn hygyrch i bobl sy'n dod i'r gwasanaeth.</p>	<p>Rheolwyr y Tîm</p> <p>Rheolwyr y Tîm</p>	<p>31 Mawrth 2024</p> <p>30 Ebrill 2024</p>
<p>Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth yn y broses o lunio'r asesiadau risg a'r cynlluniau gweithredu hyn.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr, lle y bo'n briodol, yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o lunio asesiad risg y gwasanaeth a chynlluniau gweithredu ar gyfer adfer.</p>	<p>Ystyrir gofyn i wasanaeth eirioli ychwanegol, gan gynnwys Caniad, fynychu cyfarfod adolygu fel y gellir ystyried barn Defnyddwyr y Gwasanaeth, Teuluoedd a Gofalwyr ar asesiad risg y gwasanaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer adfer a'i chynnwys lle y bo'n berthnasol ac yn briodol.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaeth</p>	<p>31 Mawrth 2024</p>
<p>Dywedwyd wrthym nad oedd yr adnoddau staffio wedi cael eu hadolygu i fynd i'r afael â'r cynnydd hwn yn y llwyth gwaith o ganlyniad i nifer y defnyddwyr gwasanaeth â</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro ac asesu adnoddau staffio yn erbyn llwythi gwaith a chymryd camau priodol pan fo angen.</p>	<p>Parhau i fonitro ac uwchgyfeirio lefelau staffio cymunedol drwy sgrymiau diogelwch, cyfarfodydd staff nyrsio, cyfarfodydd tîm a sesiynau goruchwylio.</p>	<p>Pennaeth Gweithrediadau</p>	<p>30 Mai 2024</p>

diagnosis o ADHD sydd wedi cael eu hatgyfeirio at y tîm.		Ystyried datblygu achos busnes ar gyfer trefniadau staffio amgen.	Pennaeth Gweithrediadau	30 Ebrill 2024
Nid oedd polisi rheoli llwyth gwaith ar waith i gefnogi hyn.	Dylai'r bwrdd iechyd lunio polisi rheoli llwyth gwaith.	Cysylltu ag Arweinydd Grŵp Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) Cymru Gyfan i ganfod a oes polisi rheoli llwyth gwaith ar gael y gellir ei addasu. Os nad oes un ar gael, bydd y bwrdd iechyd yn datblygu/addasu gweithdrefnau presennol mewn perthynas â rheoli llwyth gwaith. Gall fod angen dogfen reoli ysgrifenedig ddrafft ar gyfer hyn a fydd yn symud drwy Brosesau Cadarnhau'r Bwrdd Iechyd.	Pennaeth Gweithrediadau Pennaeth Gweithrediadau	31 Mawrth 2024 31 Rhagfyr 2024
Dywedodd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth wrthym nad oeddent yn gwybod â phwy y dylent gysylltu gyda'r nos, yn ystod y nos ac ar y penwythnos	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth a chynghor y tu allan i oriau agor arferol y swyddfa.	Datblygu taflen wybodaeth i gleifion sy'n amlinellu sut i gysylltu y tu allan i oriau gwaith arferol.	Pennaeth Gweithrediadau	31 Mai 2024

pan oedd swyddfa Nant y Glyn ar gau.				
Nid oedd unrhyw gofnod o gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r risgiau pwyntiau clymu a nodwyd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i asesiadau risg pwyntiau clymu yn cael eu cofnodi.	Cwblhau asesiad risg pwyntiau clymu ar gyfer Nant y Glyn. Bydd unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r Asesiad Risg Pwyntiau Clymu yn destun Proses Weithredu'r Is-adran drwy ffrydiau cyllido Cyfalaf a/neu Refeniw. Adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod y Grŵp Lleol a'r Grŵp Lleihau Risg Pwyntiau Clymu nes bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni.	Pennaeth Nyrsio Pennaeth Nyrsio Pennaeth Nyrsio	30 Ebrill 2024 31 Mai 2024 30 Gorffennaf 2024.
Nid oedd y gadair fflebotomi yn y clinig yn addas at y diben am nad oedd yn addas ar gyfer cleifion sydd uwchlaw maint a phwysau cyfartalog ac ni ellir ei haddasu er mwyn galluogi'r staff i weithio ar uchder cyfforddus.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cadair fflebotomi fwy addas.	Bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud trefniadau i gaffael a gosod cadair fflebotomi addas, gan sicrhau bod modd addasu ei uchder.	Rheolwyr y Tîm	31 Mai 2024

<p>Roedd ceblau estyn, â nifer o blygiau wedi'u gosod ynddynt, yn cael eu defnyddio yn ardal y clinig. Mae hyn yn berygl trydanol, ond roedd hefyd yn peri risg o faglu a chwympo.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i leihau'r risg o niwed o ganlyniad i ddefnyddio ceblau estyn trydanol.</p>	<p>Cydgysylltu â'r tîm Iechyd a Diogelwch ac Ystadau fel mater o flaenoriaeth er mwyn adolygu'r defnydd o geblau estyn trydanol a sicrhau eu bod yn ddiogel.</p>	Rheolwyr y Tîm	31 Mawrth 2024
		<p>Cydgysylltu â'r tîm Iechyd a Diogelwch er mwyn ystyried gosod socedi ychwanegol.</p>	Pennaeth Gweithrediadau	30 Ebrill 2024
<p>Roedd rhai o'r cadeiriau wedi'u gorchuddio â defnydd nad oedd modd ei sychu.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gadeiriau yn y clinig yn rhai y gellir eu glanhau'n hawdd.</p>	<p>Bydd y bwrdd iechyd yn caffael ac yn gosod seddi priodol yn ardal y clinig.</p>	Rheolwyr y Tîm	30 Mehefin 2024
<p>Nid oedd tymheredd yr oergell a ddefnyddir i storio samplau gwaed yn cael ei gofnodi. Yn fuan ar ôl yr arolygiad, cawsom gadarnhad bod taflen monitro tymheredd dyddiol wedi cael ei chyflwyno a bod cais wedi'i wneud am thermomedr i'r oergell drwy'r adran fferylliaeth.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i sicrhau bod y staff yn monitro ac yn cofnodi tymheredd yr oergell storio samplau gwaed bob dydd.</p>	<p>Sicrhau bod trefniadau i fonitro tymheredd yr oergell ar waith a'i fod yn cael ei gofnodi'n ddyddiol.</p>	Rheolwyr y Tîm	31 Mawrth 2024
		<p>Datblygu adnodd archwilio a rhoi gwybod am y canlyniadau i grwpiau llywodraethu presennol.</p>	Pennaeth Nyrsio	30 Ebrill 2024
		<p>Cwblhau archwiliad o dymheredd yr oergell.</p>	Rheolwyr y Tîm	30 Mai 2024

<p>Roedd y peiriant ECG wedi torri ers dros 12 mis ac, er i hyn gael ei gofnodi, nid oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd i drwsio'r peiriant. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i gleifion yr oedd angen ECG arnynt fel rhan o'u triniaeth fynd at eu meddyg teulu er mwyn i'r prawf gael ei gynnal.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu peiriant ECG newydd yn ddi-oed.</p>	<p>Adolygu'r gofyniad am beiriant ECG yng ngwasanaeth Nant y Glyn.</p> <p>Os oes angen peiriant ECG, cymerir camau i gael un fel mater o flaenoriaeth.</p>	<p>Rheolwyr y Tîm</p> <p>Rheolwyr y Tîm</p>	<p>31 Mawrth 2024</p> <p>31 Mehefin 2024</p>
<p>Dywedodd y staff wrthym fod diffyg cymorth gweinyddol yn y tîm i alluogi gwasanaeth effeithiol.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i adolygu trefniadau cymorth gweinyddol y tîm a chymryd camau gweithredu priodol i sicrhau bod y tîm yn gallu darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.</p>	<p>Sicrhau bod gwaith i oruchwylio'r staff gweinyddol yn cael ei gwblhau er mwyn gallu adolygu'r llwyth gwaith ac uwchgyfeirio unrhyw faterion yn y gwasanaeth fel y bo'n briodol.</p> <p>Cynnal cyfarfodydd tîm gweinyddol bob mis er mwyn sicrhau bod y llwyth gwaith yn cael ei adolygu'n barhaus, gan nodi unrhyw fylchau yn amserol fel y gellir parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.</p>	<p>Rheolwr Gweinyddu Canolog</p> <p>Rheolwr Gweinyddu Canolog</p>	<p>30 Ebrill 2024</p> <p>31 Mai 2024</p>

<p>Caiff y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal eu cadw ar ffurf papur. O ganlyniad, roedd yn anodd darllen y wybodaeth a dod o hyd i'r wybodaeth fwyaf cyfredol. Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig. Byddai hyn yn gwella'r broses o gofnodi, darllen a rhannu gwybodaeth â gwasanaethau gofal sylfaenol yn sylweddol.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd fwrw ati gyda chynlluniau i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig.</p>	<p>Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i roi System Cofnodion Iechyd Digidol ar waith.</p> <p>Rhannu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd â'r Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gyfan.</p>	<p>Pennaeth Strategaeth a Datblygu</p> <p>Pennaeth Strategaeth a Datblygu</p>	<p>31 Ionawr 2025</p> <p>30 Gorffennaf 2024</p>
<p>Nid oedd llawer o dystiolaeth bod nodiadau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu harchwilio a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlu proses archwilio ac adolygu ar gyfer cofnodion gofal a chymorth er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb.</p>	<p>Parhau i archwilio'r Mesur Iechyd Meddwl bob chwe mis.</p> <p>Rhannu canlyniad yr archwiliad â staff Nant y Glyn.</p> <p>Cytuno ar gamau gweithredu priodol o archwiliad y Mesur Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau bod cofnodion gofal a chymorth yn gywir ac yn gyson.</p>	<p>Arweinwyr y Mesur Iechyd Meddwl</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau.</p>	<p>30 Ebrill 2024</p> <p>30 Mehefin 2024</p> <p>30 Mehefin 2024</p>
<p>Nid oedd llais defnyddwyr y gwasanaeth bob amser yn cael ei adlewyrchu ym mhob cynllun</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod barn a dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hadlewyrchu</p>	<p>Caiff memo rheoledig ei anfon at bob cydgysylltydd gofal er mwyn sicrhau bod barn a</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>31 Mawrth 2024</p>

<p>gofal a thriniaeth a welsom. Roedd tuedd hefyd i gynlluniau ganolbwyntio ar risg ac anghenion yn hytrach na bod yn seiliedig ar gryfderau.</p>	<p>yn y cynlluniau gofal a thriniaeth bob amser, a bod y cynlluniau yn adlewyrchu cryfderau defnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal â'u hanghenion gofal a chymorth.</p>	<p>dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu nodi mewn cynlluniau gofal a thriniaeth.</p> <p>Cynnwys cysylltiad defnyddwyr y gwasanaeth â chynlluniau gofal a thriniaeth yn adnodd archwilio'r Mesur Iechyd Meddwl.</p>	<p>Arweinwyr y Mesur Iechyd Meddwl</p>	<p>30 Ebrill 2024</p>
<p>Nid oedd y staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio na'u cydleoli. Mae hyn wedi achosi rhai problemau mewn perthynas â chyfathrebu â chydweithwyr yn nhîm llesiant yr awdurdod lleol, ac mae wedi arwain at broses atgyfeirio fwy biwrocraidd. Serch hynny, gwelsom fod cydberthnasau gwaith anffurfiol da ar waith rhwng rheolwyr y tîm yn Nant y Glyn a'u swyddogion cyfatebol yn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae angen ffurfioli'r trefniadau hyn.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd datblygu strategaethau ffurfiol i wella prosesau cydweithio â'r awdurdod lleol ar bob lefel yn y gwasanaeth.</p>	<p>Trefnu gweithdy/digwyddiadau ymgysylltu ar y cyd ar gyfer rheolwyr tîm y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol er mwyn deall y problemau presennol, a chytuno ar Weithdrefn Weithredu Safonol, ei modelu a'i datblygu.</p> <p>Parhau i gynnal cyfarfodydd gyda Chyfarwyddwyr yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd er mwyn galluogi gwaith partneriaeth integredig.</p>	<p>Pennaeth Strategaeth a Datblygu.</p> <p>Cyfarwyddwr yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p>	<p>30 Medi 2024</p> <p>30 Mehefin 2024</p>

<p>Dyweddod y staff wrthym y byddent yn cael budd o hyfforddiant ar anhwylder yr ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol gan y bydd y tîm yn dod yn gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth i'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fuan.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd drefnu i'r staff gael hyfforddiant ar anhwylder yr ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol.</p>	<p>Trefnu i hyfforddiant gael ei ddarparu i'r holl staff clinigol ar anhwylderau'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol.</p> <p>Archwilio cofrestr y staff er mwyn dangos presenoldeb.</p> <p>Ystyried darparu'r un hyfforddiant i bob TIMC ar draws yr Is-adran.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>30 Mehefin 2024</p> <p>31 Gorffennaf 2024</p> <p>30 Mehefin 2024</p>
<p>Dyweddod rhai aelodau o'r staff wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn teimlo bod cydberthnasau rhwng gwahanol ddisgyblaethau yn y TIMC wedi chwalu. Mae'r tîm uwch-reolwyr eisoes wedi tynnu sylw at y mater hwn yn yr asesiad risg mewnol fel un y mae angen rhoi sylw iddo.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro cydberthnasau gwaith rhwng disgyblaethau gwahanol o fewn y tîm, a chymryd camau priodol ac amserol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr asesiad risg mewnol.</p>	<p>Caiff sesiynau Datblygu Tîm eu rhoi ar waith er mwyn cryfhau gwaith tîm.</p> <p>Cynhelir trafodaethau wedi'u hwyluso â thimau er mwyn deall pam nad yw'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Coladu'r themâu ac, ar y cyd â'r timau, datblygu atebion posibl gan roi adborth i'r Uwch-dîm Arwain lleol a chytuno ar gynllun.</p>	<p>Pennaeth Gweithrediadau</p> <p>Arweinydd Hyfforddiant, Datblygu a Llesiant</p>	<p>30 Mai 2024</p> <p>30 Ebrill 2024</p>

		Cytuno ar gynllun a'i roi ar waith.	Pennaeth Gweithrediadau / Arweinydd Hyfforddiant, Datblygu a Llesiant	30 Mai 2024
Nid oedd dull rhagweithiol ar waith i gasglu adborth defnyddwyr y gwasanaeth.	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried datblygu dulliau mwy rhagweithiol o gasglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.	Defnyddio Adnodd Casglu Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth yn y TIMC gyda chymorth Tîm y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion.	Pennaeth Nyrsio	30 Ebrill 2024
		Sicrhau bod Nant y Glyn wedi'i gynnwys ar gronfa ddata CIVICA.	Pennaeth Nyrsio	30 Ebrill 2024
		Ystyried arddangos poster Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth yn y dderbynfa sydd â chod QR sy'n arwain at holiadur Microsoft Forms.	Pennaeth Nyrsio	30 Ebrill 2024
Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am sut i gysylltu ag AGIC.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu harddangos mewn man amlwg yn yr ardal aros.	Arddangos manylion ar sut i gysylltu ag AGIC yn ardal aros defnyddwyr y gwasanaeth.	Rheolwr y Tîm	31 Mawrth 2024
Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ffurfiol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Rhannu dolen â'r staff i hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Pennaeth Nyrsio	31 Mawrth 2024

		<p>Uwch-dîm Arwain Lleol i fonitro cyfranogiad y staff yn yr hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant. Adrodd ar hyn yng nghyfarfod Grŵp Cyflawni Ansawdd Gwasanaethau yr Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.</p>	Pennaeth Nyrzio	30 Mehefin 2024
		<p>Ailadrodd y broses ym mhob TIMC ar draws yr Is-adran.</p>	Pennaeth Nyrzio	31 Gorffennaf 2024
<p>Dywedwyd wrthym nad oedd rhai Meddygon Teulu yn gwbl gefnogol o broses 'rhannu'r gofal' a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y TIMC.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Meddygon Teulu yn gwbl ymrwymedig i egwyddorion 'rhannu'r gofal' ac yn eu cefnogi.</p>	<p>Ymgysylltu â Meddygon Teulu sy'n gysylltiedig â phroses Rhannu'r Gofal.</p>	Cyfarwyddwr Clinigol	30 Medi 2024
		<p>Trafod camau gweithredu priodol i ddatrys unrhyw broblemau a chytuno arnynt.</p>	Cyfarwyddwr Clinigol	30 Tachwedd 2024
		<p>Caiff y camau gweithredu eu monitro a'u hadolygu drwy gyfarfodydd y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gwasanaethau lleol</p>	Cyfarwyddwr Clinigol	31 Rhagfyr 2024.

	a'u huwchgyfeirio i fforymau llywodraethu'r Is-adran, os bydd angen.		
--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Carole Evanson

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 14 Mawrth 2024